

# Gyda'r milfeddyg

nodion a'u athrawon

## A ddylwn i frwsio blew fy nghath?

Dylech - mae angen brwsio pob cath yn rheolaidd. Mae angen brwsio cathod â blew hir bob dydd.

## Pa fwyd ddylwn i ei roi i'r bwji?

Bwyd adar priodol, hadau wedi eu hysgwyd drwy ridyll mân, a danteithion fel letys ffres, moron ac afalau.

## Pa mor hen ddylai fy nghifod cyn imi ddechrau ei hyfforddi?

Tua wyth wythnos. Pan fydd tua 12 wythnos oed, gallwch gyflwyno'r ci i gŵn eraill, pobl a synau fel traffig.

## A ddylwn i roi planhigion yn nhanc y pysgod? Beth arall fydd ei angen arna i?

Dylech - mae angen amrywiaeth o blanhigion, a chreigiau llyfn i guddio rhyngddydd nhw.

## A ddylwn i chwarae gyda'r bochdew yn ystod y dydd?

Na ddylech, anifail y nos yw bochdew.

## Am faint o amser wnaiff fy mochyn cwta fyw?

Hyd at saith mlynedd.

## Pa fwyd ddylwn i ei roi i'r gerbil?

Grawn cymysg, ffrwythau a llysiau wedi eu golchi, a hadau blodau haul a chnau mwnci o bryd i'w gilydd.

## A ddylwn i gadw un gwningen ar ei phen ei hun?

Dydy cadw un gwningen ar ei phen ei hun ddim yn beth caredig i'w wneud. Mae cwningod benywaidd o'r un dorllwyth yn byw'n llwyddiannus gyda'i gilydd.

